

Llais y Llan Rhagfyr 2013

Copi dyddiad ar gyfer rhifyn nesaf – 25 Ionawr 2014

Cyhoeddwyd gan Llanpumsaint Cyfnewid Gwybodaeth Gymunedol

www.llanpumsaint.org.uk info@llanpumsaint.org.uk

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi gyd

Beth sy' Mlaen yn y Pentref yn y misoedd nesaf

Dawnsio Zumba yn y Neuadd Goffa bob nos Fawrth 6.30 – 7.30 (yn dechrau eto 7 Ionawr)

MOBI tu allan i'r Neuadd Goffa pob nos Fercher o 17.30 tan 19.30

Merched Y Wawr trydydd Nos Lun pob mis yn y Neuadd Goffa am 7:30

Rhagfyr 13 Nos Wener 7.30 Bingo Neuadd Goffa

Rhagfyr 14 Dydd Sadwrn Cyngerdd Nadolig Cylch Meithrin Neuadd Bronwydd

Rhagfyr 15 Dydd Sul 3.00 Gwasanaeth Nadolig Capel Nebo

Rhagfyr 15 Nos Sul 6.00 Gwasanaeth Carolau, Eglwys Llanpumsaint

Rhagfyr 17 Dydd Llun Cinio Nadolig Gwili Clwb >60 Hollybrook

Rhagfyr 24 Dydd Mawrth 1.30 Gorymdaith Sion Corn

Rhagfyr 31 Nos Cyn Calan Cinio Tafarn y Rheilffordd 253643

Ionawr 1 Dydd Mercher 11.00 Taith Gerdded Hanesyddol o Gwmpas y Pentref, Neuadd Goffa

Ionawr 7 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Ionawr 15 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio, Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Ionawr 16 Nos Iau 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen Tafarn y Rheilffordd

Ionawr 24 Nos Wener 7.30 Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol LCIE Neuadd Goffa

Ionawr 26 Dydd Sul 1.45 Cymdeithas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Ionawr 26 Nos Sul 8.00 Cwiz Hollybrook

Ionawr 27 Dydd Llun 2.00 Clwb Gwili >60+ Neuadd Bronwydd

Ionawr 28 Dydd Mawrth 12.15 Clinig 'Traed Hapus' Neuadd Goffa

Chwefror 1 Nos Sadwrn Swper a 'Swing' Neuadd Goffa Tocynau £10, 01559389044

Chwefror 4 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Chwefror 8 Dydd Sadwrn 10.30 Cerdded Neuadd Bronwydd

Chwefror 12 Dydd Mercher 12.30 Clwb Cinio, Tafarn y Rheilffordd Ffôn 253643

Chwefror 20 Nos Iau 7.00 Cwis a Chyri £5.00 y pen Tafarn y Rheilffordd

Chwefror 23 Dydd Sul 1.45 Cymdeithas Dewinwyr Gorllewin Cymru Neuadd Bronwydd

Chwefror 23 Nos Sul 8.00 Cwiz Hollybrook

Chwefror 24 Dydd Llun 2.00 Clwb Gwili >60+ Neuadd Bronwydd

Mawrth 1 Nos Sadwrn Cawl a Rasio Ceffylau, Manylion yn Nesaf Llais y Llan

Mawrth 4 Nos Fawrth 8.00 Cyngor Bro Llanpumsaint Neuadd Goffa

Mawrth 11 Dydd Mawrth 12.15 Clinig 'Traed Hapus' Neuadd Goffa

*Neuadd Goffa Llanpumsaint a Ffynnonhenri
I logi'r Neuadd Goffa, ffoniwch Arwel Nicholas ar 01267 281365*

Gorymdaith Sion Corn Noswyl Nadolig - Pwyllgor Lles ac Adloniant

Bydd yr orymdaith yn cychwyn y tu ôl i Gart Llusg Sion Corn o'r fynedfa ger Nantyrnys am hanner awr wedi un.(1.30 y.p). Cennir carolau yn y manau canlynol - Tafarn y Railwe - Brynywawr - Siop Penbontbren - Yr eglwys - Yastad y Llandre - Parc Celynin. Yna bydd yr orymdaith yn dychwelid i'r Railwe.

Gwahoddir chi i wisgo lan a bydd Jayne Y Railwe yn beirniadu'r wisg orau ac estyn gwobr ariannol i'r enillydd. Canwn y carolau bennill Cymraeg a phennill Saesneg am yn ail.

Yn y tafarn bydd yna raffl a chawl a mins peis i bawb. Bydd Sion Corn yn croesawu'r plant i'w ogof yn y Railwe wedi'r orymdaith orffen.

Bydd yr elw o gasgliadau'r bwcedi a'r Raffl yn mynd tuag at elusen ddewisedig y Pwyllgor am 2013 sef - Uned Clyw Ysbyty Glangwili i blant byddar

Capel Ffynnonhenri

Os am ragor o fanylion cysylltwch â Danny Davies, Trysorydd ar 01267 253418 neu Gwyn Nicholas Ysgrifennydd ar 01267 253686

Capel y Bedyddwyr Caersalem, Llanpumsaint

"Cyhoeddwn Iesu Grist yn Waredwr ac yn Arglwydd"

Dydd Sul: 10.00am Ysgol Sul I Oedolion (Cymraeg)

2.00pm Oedfa Bregethu (Cymraeg) Sul ofa'r mis - Oedfa Saesneg

Dydd Mawrth 1.00pm Dosbarth Beiblaidd Dwyieithog yn ein chwaer Eglwys Penuel

Dydd Iau 2.00pm Cwrdd Gweddi

Rhifau Cyswllt Mrs Eleri Morris 01267 253895

Eglwys y Plwyf

Gwasanaeth Carolau -- Nos Sul 17eg o Ragfyr am 6 o'r gloch.

Gwasanaethau Nadolig eraill

Noswyl Nadolig -- Y Cymun Cyntaf 11.30 y.h

Bore Nadolig – Cymundeb Teuluol 10 y.b

Mae manylion unrhyw wasanaethau arall ar hybysfwrdd yr eglwys.

llanpumsaintparish.org , 01267 253205 neu E-bost:- vicar@llanpumsaintparish.org

Nebo

Ar y 15ed o Ragfyr mi fyddwn yn cynnal ein Gwasanaeth Nadolig yn y Capel am 3 o'r gloch. Rydyn yn gobeithio bydd Sion Corn yn dod I ymweld a'r plant ar ol y gwasanaeth. Croeso I bawb.

Clwb 100 Llanpumsaint

Dyma restr y buddugwyr am Hydref a Thachwedd a dynnwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Lles ac Adloniant -

Hydref - £20 Rhif 11 --- Wil Fitsimon
 £10 Rhif 9 ---- Florrie Rees
 £5 Rhif 32 --- Hedydd Rees
 £5 Rhif 66 ---- David Icke

Tachwedd - £20 Rhif 75 --- Dorrien Thomas
 £10 Rhif 97 --- Sandy Maher
 £5 Rhif 21 --- John Bowen
 £5 Rhif 114 --- Michelle Girdler

Penderfynodd y Pwyllgor ddileu'r gwobrau £5 adeg y Nadolig gan ymestyn y drydedd wobwr i £25 ac ychwanegu naw gwobr o £10. Yna tynnwyd yr enwau llwyddiannus yma

allan - £100 Rhif74 --- Larwen Bowen
 £50 Rhif 66 --- David Icke
 £25 Rhif 45 --- Geraint Hughes
 £25 Rhif 36 --- David Robinson
 £15 Rhif 31 --- Mathew Jones
 £15 Rhif 20 --- Malcom Howells
 £10 Rhif 56 --- Elsie Jones
 £10 Rhif 88 --- Geraldine Davies
 £10 Rhif 46 --- Morwen Rees
 £10 Rhif 100 --- Brian Gilman
 £10 Rhif 65 --- Patrick Thacker
 £10 Rhif 94 --- John and Carolyn Atkinson
 £10 Rhif 5 --- Eirlys Lloyd
 £10 Rhif 40 --- Sandra Powell
 £10 Rhif 89 --- Chris and Jayne Hughes

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Lewyrchus i chi gyd. Derik Lock 253524

Mobi Os y medrwch fod o gymorth cysylltwch a Carys 01267 221551

“Fly Me To The Moon” – dawns a swper

Band byw + 2 gwrs o fwyd cartref. Bar trwyddedig. Chwefror 1, Nos Sadwrn am 7.30 y.h. hyd 11.30 y.h. yn Neuadd Goffa Llanpumsaint. Y band lleol yw “Swing Boyz & Christiana” ac mae tocynnau yn £10 o siop y pentref neu ffoniwch 01559389044 i archebu tocynnau. Elw i gronfa 'Red Cross.'

Cng. Irfon Jones - Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i bawb a diolch am bopeth.

CYLCH MEITHRIN BRONWYDD

Neuadd Bronwydd, Bore Dydd Mawrth, Mercher, Iau a Gwener 9:15 – 12:00

Cylch Ti a Fi - Bore Dydd Gwener 10:00 – 12:00 (Ygost am “Ti a Fi” yw £2.50)

Mae Cylch Meithrin Bronwydd yn cynnig gofal plant o ansawdd uchel i blant 2 ½ oed hyd at oedran ysgol. Rydym yn credu mewn creu amgylchedd diogel, hapus a chroesawgar ar gyfer y plant, staff a rhieni. Bydd eich plentyn yn cael cyfle i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau addysgol, llawn hwyl a sbri.

Mae Cyngor Sir Gâr yn cynnig 10 awr o addysg am ddim i blant dros 3 blwydd oed. Os nad ydy eich plentyn yn gymwys yna rhaid talu £6 y bore, yn cynnwys byrbrydau a llaeth. Am ragor o wybodaeth cysylltwch ein Arweinydd ar 01558 822652.

Peidiwch ag anghofio 14^{eg} o Ragfyr - Cyngerdd Nadolig yn Neuadd Bronwydd

Gwasanaeth “Traed Hapus” gyda ‘Wellbeing Regeneration's Footcare Service’

Mae'r gwasanaeth torri ewinedd traed yn dod i Neuadd Goffa Llanpumsaint bob chwe wythnos. Mae'r sesiwn nesaf yna ar y Ionawr 28 ac yna ar y Mawrth 11 am 12.15y.p..

Ffoniwch i archebu eich lle. Pris y sesiwn yw £8.50 ond mae angen taliad cychwynnol o £26.50 am bâr o glipwyr a rhathell eich hunan. Am wybodaeth ac archebu: 01554 744896 - oriau swyddfa 9.30 hyd 4.30 y.p.

http://www.wellbeingregeneration.org.uk/cms/index.php?option=com_content&view=article&id=56&Itemid=18

Siop Amserau agor dros gyfnod y Nadolig

Noswyl Nadolig - 8 y.b - 3 y.p.; Dydd Nadolig - Ar gau; Gwyl San Steffan - Ar gau.

Diwrnod cyn Calan - 8 y.b - 3 y.p.; Dydd Calan - Ar gau; 2ail Ionawr 2014 - 8 y.b - 1 y.p.

Gwasanaeth y Swyddfa Bost -- Gair i'ch atgoffa fod y fan yn dod bob prynhawn

Dydd Mawrth - 2 y.p - 4 y.p; Prynhawn Gwener -- 1 y.p – 3 y.p.

Bydd yn parcio yn yr arhosfa'n ger Brynywawr gerllaw Tafarn y Railwe.

Peiriant Adfywio i'r pentref

Penderfynodd Y Cyngor Cymuned y gellid defnyddio'r Blychau Ffon Coch fel safle i'r peiriannau adfywio yma. Bwriad yr elusen Calon Cymru yw cydweithio a mudiadau eraill er mwyn hwyluso gosod cyfarpar arbed bywyd drwy Gymru gyfan

<http://www.welshhearts.org>. Hefyd mewn cydweithrediad ag Ambiwlans Awyr Cymru byddant yn barod i hyfforddi trigolion lleol.

Mae gwir angen Cysylltydd arnom i arwain y fenter hon a sicrhau fod y cyfarpar allweddol yma yn cyrraedd ein hardal. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Carolyn Smethurst ar 253308 neu Phillip Jones ar 253512.

Pam fod angen Cyfarpar Adfywio?

Yn dilyn trawiad ar y galon mae'r siawns o bara'n fyw yn dirywio 23% bob munud. Felly mae'n holl bwysig fod triniaeth feddygol yn dechrau cyn gynted â phosib. Felly mae Cyngor Adfywio'r Deyrnas Unedig yn cynnig y dylai Peiriant Adfywio fod ar gael lle bynnag mae triniaeth feddygol yn fwy na 5 munud i ffwrdd. Mewn ffordd golyga hyn bron bobman, ac yn bendant mae'n cynnwys ardal wledig fel Llanpumsaint. Ceir mwy o wybodaeth ar <http://www.communityheartbeat.org.uk/why.php>

Clwb Gwili 60+

Mae'r clwb yn dal i groesawu aelodau newydd ac mae yna raglen amrywiol a diddorol wedi ei pharatoi gogyfer a'r flwyddyn newydd. Trefnwyd y Cinio Nadolig blynyddol yn Nhafarn Gwlad Nantcelynen ar 17eg o Ragfyr, ac felly ni fydd yna gyfarfod arall eleni.

Bydd y cyfarfod cynta' o'r flwyddyn newydd ar y pedwerydd dydd Llun fel arfer, pan fydd Robert Morgan yn traethu ar "Mae bywyd yn dechrau yn drigain oed!"

Ym Mis Chwefror daw'r plismon lleol i drafod ei ddyletswyddau yn yr ardal. Yn yr un cyfarfod dethlir Gŵyl Dewi gyda basned o gawl, bara a chaws. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Val Giles yr Ysgrifenyddes ar 01267 281194

Y Gwasanaeth yn annog y cyhoedd i wirio eu teiars

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn annog modurwyr i baratoi ar gyfer y tywydd oer ac amodau mwy heriol y ffyrdd trwy wirio eu teiars.

Dywedodd y Swyddog Lleihau Gwrthdrawiadau ar y Ffordd, Kenny McDonald:

"Rydym ni eisiau i'r holl yrwyr i edrych ar deiars eu ceir, yn cynnwys yr olwyn sbâr, ac i sicrhau eu bod yn gyfreithlon ac mewn cyflwr da. Os oes amheuaeth, galwch eich garej leol neu arbenigwr teiars, a fydd yn gwirio a yw eich teiars yn barod ar gyfer unrhyw amodau gyrru mwy heriol yn ystod cyfnodau o dywydd gaeafol."

"Dylai gyrwyr sicrhau bod gwasgedd aer y teiars yn gywir, a dylent gofio cadw eu pellter oddi wrth gerbydau eraill, i sicrhau y gallant stopio mewn digon am amser i osgoi unrhyw wrthdrawiadau".

Am ynni rhatach???

Cyfnewidfa cyd-newid ynni yw Cyd Cymru. Mwya' i gyd o bobl sy'n ymuno mwya' i gyd yw'r arbedion -- felly pregethwch y neges i'ch cymdogion, eich teuluoedd a'ch ffrindiau! Ceir mwy o wybodaeth o <http://www.cydcymru-energy.com>.

Bydd y cyfnod cofrestru yn gorffen ar **Ddydd Sul 12fed o Ionawr 2014**. Bydd y cyfnod o gysylltu ynghyn a'r cynllun a manylion am gyfnewid yn ymestyn o 13eg hyd 24ain o Ionawr 2014. Wedyn byddant yn cysylltu eto ynghyn a chynnig y Gyfnewidfa, a chymhari hynny ochr yn ochr â'r cynhigion arail fydd ar gael ar y pryd.

Cyngor Bro Llanpumsaint

Mae'r Cyngor Cymuned yn cyfarfod ar nos Fawrth gyntaf ym mhob mis (ac eithrio misoedd Rhagfyr ac Awst) am 8 yr hwyr yn y Neuadd Goffa ac mae pob cyfarfod yn agored i'r cyhoedd. Mae ein Clerc yw Phillip Jones, a gellir cysylltu ag ef ar 01267 253512, neu philkto@yahoo.co.uk

Yn dilyn marwolaeth drist Mali Lloyd eleni mae yna sedd wag ar y Cyngor. Oherwydd nad oes neb wedi cynnig eu hunan, mi fydd y Cyngor yn ethol rhywun yn y cyfarfod nesaf, sef am wyth o'r gloch ar y 7fed o Ionawr 2014.

Canlyniad Etholiad Diwrthwynebiad:- Elfed Davies, Danny Davies, Malcolm Howells, Dylan Jones, Arwel Nicholas, Wyn Thomas, Carolyn Smethurst.

Ceisiadau Cynllunio

W/29105 Tir CLYTTIE COCHION, LLANPUMSAINT, Caerfyrddin SA33 6BT - Cyfnewid Defnydd o dir amaethyddol i greu safle wersylla i gynnwys :- 6 coden – 1 toiled/cawod a safle parcio i geir.

Daeth cyniatad cynllunio i osod y Bwrdd Treftadaeth y tu allan i'r Neuadd ac mi fydd yn cael ei osod yn fuan. Ceir gwybodaeth am y daith hanesyddol o amgylch y pentref o wefan <http://www.llanpumsaintwalk.org.uk/>

Superfast Cymru

Mae Llywodraeth Cymru a B.T. yn cydweithio i sicrhau fod 96% o'r wlad yn derbyn Y band eang erbyn 2016, ac maent yn cyhoeddi cylchlythyr i'ch diweddarau am hynnt a helynt y rhaglen. Eu bwriad yw ein hysbysu pa gymunedau fydd nesaf i dderbyn y ffibr cyflym, a chynnwys straeon o'r cymunedau hynny sydd eisoes wedi elwa o'r gwasanaeth band eang cyflym yma.

Ar hyn o bryd mae ardal Llanpumsaint dan arolwg ond heb dderbyn dyddiad gweithredol, felly byddai'n syniad da i bawb gofrestru ar <http://www.superfast-cymru.com>. Deallwn y bydd Cyfnewidfa Pencader rhai eraill yn weithredol yn 2014 neu 2015.

Cymdeithas Daroganwyr Gorllewin Cymru

Mae darogan yn ymarfer defnyddiol a diddorol a gall bron unrhyw un ei ddysgu. Dywed ei fod wedi deillio o'r Aifft neu hyd yn oed ynghynt mewn hanes. Mae nifer o gwmnïoedd yn defnyddio gwasanaeth daroganwyr profiadol i chwilio am ddŵr, mwynau, olew, ceblau trydan ayyb. Mae rhai yn chwilio am fwyd ac eraill yn chwilio am unrhyw dynfa daearyddol yn ei amgylchedd; ond mae darogan yn gred bersonol ac nid yw wedi'i brofi yn wyddonol. Felly pam na ddewch chi i'r cyfarfod dydd Sul? Mae mynediad yn £4 y person gan gynnwys lluniaeth ysgafn yn y toriad. Am wybodaeth bellach: Sandy 01267 253 547

Grŵp Cynaliadwy Llanpumsaint

Dyma'r mudiad sydd yn cyhoeddi Llais Y Llan ac yn cynnal y wefan <http://www.llanpumsaint.org.uk> Byddwn yn cynnal ein cyfarfod blynyddol yn y Neuadd am 7.30 y.h. ar Ionawr 42, Nos Wener. Croeso i chi ddod - mae angen pobl newydd a syniadau arnom ar sut i wella'r Llais a'r wefan

Clwb Cerdded Llanpumsaint

Cafwyd taith hynod o ddiddorol o amgylch Cei Newydd yng nghwmni John Ifans, sydd yn frodor o'r pentref. Ar ddiwrnod braf 'roedd y golygfeydd ar draws Bae Ceredigion yn odidog.

Cynhelir y daith nesaf ar ddydd Calan, sef y 1af o Ionawr 2014 pan fyddwn yn canlyn Y Daith 'Trefnadaeth o amgylch y pentref', hon a ddisgrifir ar

<http://www.llanpumsaintwalk.org.uk/>.. Byddwn y cychwyn o'r Neuadd Goffa am 11 y bore. Mae'r daith mewn dwy ran. Bydd y cyntaf yn filltir a hanner, ar dir gwastad gyda tharmac dan draed, ac yn cymerid rhyw awr.

Hanner ffordd ger y Cwppers daw cyfle, os dymunwch i ychwanegu tair milltir arall ati, drwy ddilyn y cyfarwyddiadau i Ystum Gwili (ardal Nebo). Byddwch yn wynebu tyle ac yn mynd ar draws rhai caeau, felly mae'n bwysig gwisgo esgidiau addas. Bydd yn cymerid rhyw ddwy awr yn ychwanegol. Felly drwy gyd gyfarfod am 11 y.b gallwn gwblhau'r holl daith mewn tair awr cyn gorffen yn nhafarn Y Railwe.

Bydd taith Fis Chwefror yn cychwyn o Neuadd Bronwydd ar yr 8ed am hanner awr wedi deg y bore. Byddwn yn cerdded yn bennaf dros lwybrau a heolydd, gan ddilyn yr afon Gwili i gychwyn tuag at bentref Cwmdwyfran a chroesi'r A484 yno. Yna dringo llwybr serth heibio i fferm Cwmdwyfran ac aneli tua'r Clwb Golf a Llanewydd. O gopa'r bryn bydd yna olygfeydd eang cyn disgyn yn ôl tua Browydd unwaith eto. Hyd y daith yw tua 5 milltir a gellir casglu gwybodaeth bellach

oddiwrthhttp://www.discovercarmarthenshire.com/activities/walks_pdfs/Bronwydd.pdf

Mae ein teithiau cerdded yn agored i bawb. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Carolyn ar 01267253308, info@gwilimill.co.uk

Tywyddgall Rhagfyr 2013

Wel dyma ni, nôl I ganol y tywydd gwlyb unwaith eto ac amodau delfrydol I bydru traed, ac oni bai am yr esgyd a fathwyd gan Arthur Wellesley, efallai fyddai nifer o weithwyr a cherddwyr yn dioddef o'r dolur "Trench Foot"! Dywedwyd pe bai Arthur Wellesley wedi dyfeisio'r frechdan, a John Montagu yr esgyd, heddiw mi fydden ni yn gwisgo brechdanau a bwyta esgidiau, oherwydd mae Arthur Wellesley, Dug Wellington wnaeth ofyn I'w grudd wneud newidiadau I'r esgyd Hessian a'I symleiddio er mwyn ei wneud yn fwy ymarferol wrth wneud I ffwrdd a'r arddurniadau. Roedd yr esgyd ar ei newydd wedd yn boblogaidd ac fe'u gwisgwyd gan y niferoedd ac yna yn 1852, crewyd yr esgyd allan o rwber, a dod yn droed wisg cyffredin a phoblogaidd. Hyd yn oed wrth wisgo esgidiau pwrpasol mae modd cael "Trench Foot", ac yn ystod rhyfeloedd diweddar, yr amddiffynfa orau I filwyr rhag y dolur oedd I wneud un milwr yn gyfrifol am draed y llall, a gofalu fod hosanau yn cael eu sychu yn ddyddiol ac olew morful yn cael ei dyluno I'r traed. Trwy drugaredd, ni fydd rhaid I drigolion Llanpumsaint aros mewn dŵr a llaid am 13eg awr a dioddef Trench Foot er fod Hydref 2013 wedi bod y gwlypaf oddi ar 2008 gyda 131% o'r glaw arferol wedi disgyn, oherwydd fod gyda ni 'wellies' a chartrefi clyd! Unwaith eto, mae'r tywydd wedi creu yr amodau perthffaith I'r falwen llaid, yr un sydd yn gartref I wyau llyngyr yr iau, sydd yn golygu fod yn rhaid rhoi moddion I ddifa'r creadur bychan dinistriol, neu mi fydd defaid yn trigo yn eu lluoedd. Ffigwr arferol marwoliaethau mewn praidd yw rhwng 1 a 3% ond y llynedd collwyd I fyny hyd at 10% o ddefaid mewn rhai diadelloedd, ond roedd y colledion arianol yn uwch na hynny oherwydd y defaid a achubwyd eu bywydau ond ni wnaethant hwrdda oherwydd bod eu cyflwr corfforol mor ddifrifol o wael. Ergyd sylweddol I goffrau'r ffarmwr....

Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gynradd Llanpumsaint

Mae'n eithaf syml - os ydych yn siopa ar y We cofrestrwch unwaith gyda

www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintpta

<<http://www.easyfundraising.org.uk/causes/llanpumsaintpta>>. Wedyn bob tro fyddwch yn siopa ar y we ewch i'r Wefan "Your favourites" a bant a chi.

Gellwch arbed arian gyda "easyfundraising" hefyd, oherwydd dewch ar draws gynigion rhatach yno. Felly byddwch yn ein helpi ni ac yn arbed arian yr un pryd. Cewch fwy o fanylion oddiwrth Sarah 253412.

Urdd Merched Bronwydd

Mae'r Urdd yn cyfarfod yn Neuadd Bronwydd ar yr ail ddydd Llun o'r mis o 7.00 y.h. i 9.00 y.h. - bydd croeso cynnes i unrhyw aelodau newydd. Am unrhyw fanylion pellach cysylltwch â Val Lock ar 01267 253 524, neu Sandra MacDonald ar 01267231265.

Llanpumsaint Cynaliadwy

Wel, mae'n rhaid bod Llanpumsaint Cynaliadwy yn flwydd oed erbyn hyn oherwydd cynhaliwyd Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ar Nos Wener yr 8fed o Dachwedd. Cafwyd cyfarfod bywiog a difyr wrth I'r deuddeg brwdfrydig rhannu gyda balchder haeddiannol yr hyn a gyflawnwyd ers y Gwanwyn a syniadau am yr hyn yr hoffent weld yn digwydd yn y dyfodol os bydd yr arian ar gael. Eisioes mae angen rhagor o bron pob dim; gweliau pridd, mwy o le yn y ty gwydr a polytunnels, ond yr hyn sydd yna ddigonedd ohonno yw; pridd, compost ac efalla yr hyn sydd mwyaf gwerthfawr – gwagle! Golyga hyn fod mwy na digon o le I'r fenter gymunedol ehangu yn nhermau nifer y rhanddeiliaid ac mewn amrywiaeth y cynnyrch a dyfir os plennir llwyni ffrwythau a pherllan fechan. Dymuniad y rhanddeiliaid yw creu dôl o flodau gwyllt ar yr hyn sydd yn ddifeithwch ar hyn o bryd a fydd yn creu cynefin dengar I bryfed o bob math er budd y gerddi a'r amgylchedd ehangach. I'r sawl sydd am fwy o wybodaeth ynglyn a'r hyn sydd yn digwydd yn y gerddi, gofynnwch I'r tyfwyr I ddangos I chi ac os nad ydych yn gyfarwydd â'r garddwyr, cysylltwch gyda John Atkinson ar 01267 253846 neu trowch at dudalen Weplyfr y rhanddeilwyr: Llanpumsaint Allotment Association – mae modd I chi ddod o hyd I'r ddalen o wefan Llanpumsaint.

Eisiau i ddefnyddio mwy o Gymraeg yn eich busnes?

Fe lansiodd Comisiynydd y Gymraeg wasanaeth rhanbarthol newydd i gefnogi busnesau bach a chanolig i ddatblygu defnydd o'r Gymraeg. Fel rhan o'r gwasanaeth newydd, bydd pedwar swyddog cynghori busnes yn gweithio'n uniongyrchol â busnesau ar draws Cymru trwy ddarparu:

- mynediad at wasanaeth prawf ddarllen yn Gymraeg
- templed sy'n galluogi busnesau i ddatblygu polisi iaith unigryw i'w anghenion
- bathodynau, cortynnau gwddf a gwaith celf Iaith Gwaith
- llyfryn yn rhoi cyngor ymarferol ar sut i ddefnyddio'r Gymraeg

Wrth lansio'r gwasanaeth, dywedodd Comisiynydd y Gymraeg, Meri Huws:

“Mae'n amser heriol i fusnesau gydag ansicrwydd economaidd a sialensiau newydd. Yn fwy nag erioed, mae busnesau yn awyddus i ddarparu gwasanaeth o'r safon uchaf, ac mae adlewyrchu anghenion cleientiaid yn rhan bwysig o ofal cwsmer da. Bydd ymdrechion busnesau i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu gwerthfawrogi, a thrwy'r gwerthfawrogiad hwnnw fe ddaw teyrngarwch ac ymddiriedaeth y cwsmer.

“Trwy'r gwasanaeth newydd fe fydd swyddogion yn gweithio'n uniongyrchol gyda busnesau er mwyn cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn ffordd sy'n ateb anghenion penodol y busnesau yn ogystal â'r angen a'r galw yn y gymuned leol. Rwy'n annog perchnogion busnesau bach a chanolig i gysylltu â nhw er mwyn dysgu mwy am fuddion defnyddio'r Gymraeg.”

Mae'r holl wasanaethau ac adnoddau busnes ar gael yn rhad ac am ddim.

Gall busnesau gysylltu â swyddogion rhanbarthol y Comisiynydd trwy anfon e-bost at post@comisiynyddygydraeg.org, ffonio 0845 6033 221. Mae mwy o wybodaeth am ddefnyddio'r Gymraeg mewn busnes ar wefan comisiynyddygydraeg.org.

Cofiwch ailgylchu y Nadolig hwn

Gofynnir ichi ailgylchu eich sbwriel y Nadolig hwn.

Gyda'r holl yfed a bwyta rydym yn tueddu i gynhyrchu llawer mwy o sbwriel ar yr adeg hon o'r flwyddyn a dyna pam mae'n bwysig ceisio ailgylchu cymaint â phosibl.

Defnyddiwch eich bagiau glas ar gyfer poteli plastig, caniau, cardbord, papur lapio a chardiau.

Dylai unrhyw fwyd Nadolig nad oes modd osgoi ei wastraffu megis esgyrn twrci a chrafion llysiâu fynd yn eich bin bwyd gwyrdd.

A chofiwch, o ddydd Mercher, 25^{ain} Rhagfyr tan ddydd Gwener 27^{ain} Rhagfyr, bydd y casgliadau yn digwydd **DDAU** ddiwrnod yn hwyrach na'r arfer. Wedyn o ddydd Mercher, 1^{af} Ionawr tan ddydd Gwener 3^{ydd} Ionawr, bydd y casgliadau yn digwydd **UN** diwrnod yn hwyrach na'r arfer.

Cefndir y tri

Un adeg fe wyddai pawb o drigolion y plwyf am gefndir y bechgyn lleol gollodd eu bynyddau yn yr Ail Ryfel Byd ..Er bod coffa cyhoeddus mewn mwy nag un man amdanynt teimlir bellach fod angen ail hatgoffa ein hunain am eu bynyddau byr. Yn ystod y gwasanaeth diweddaraf yn y Neuadd ar Sul y 10ed o Dachwedd 2013, mewn ffeil o waith y Parchedig Mary Thorley o Gaerfyrddin, gellid gweld bedd Ifan Lloyd yn Chungbai ym Myrmao. Hefyd dosbarthwyd manylion am gefndir y tri gasghwyd gan Arwyn Thomas.

Evan Lloyd Thomas Blaencors Bachgen o dde ddwyrain y plwyf oedd Ifan a'i dad yn un o hoelion wyth Eglwys Sant Celynin. Codwyd ef ar fferm Blaencors, sydd hanner ffordd rhwng Sgwâr y Graig a Phontarsais, a derbyniodd ei addysg yn Ysgol Pontarsais sydd wedi ei chau ers blynyddoedd bellach. Yna aeth yn fecanic i Garej Nelson ger mynedfa'r hen farchnad yng Nghaerfyrddin. Carcharwyd ef yn Siam, a bu farw o afiechyd a diffyg maeth yn nwylo'r Siapaneaid yn 1943. I ychwanegu at boen y teulu ni chyrhaeddodd y newyddion eu cartre' tan Ragfyr 1945, fisoedd ar ôl dathliadau'r heddwch. Dioddefodd yn enbyd druan ond yn ôl tystiolaeth y diweddar Rachel Hannah Jones ei chwaer, "Fe fydde'n codi calonne'r carcharorion erill pan o'dd pethe'n wael... bydde Ifan yn canu emyne iddyn nhw!"

Percy Thomas Gwarcwm Fe'i ganed yn 1921 gan gychwyn ar ei addysg yn ysgol yn Llanpumsaint ar y 9fed o Fedi, 1925. Enillodd Ysgoloriaeth i Ysgol Ramadeg Caerfyrddin, gan ddisgleirio yno drwy lwyddo yn y London Matriculation yn bymtheg oed. Ddwyllydd wedyn pasiodd y Dystysgrif Uwch a mynd ymlaen i swydd cemegydd yng ngweithfeydd y Mond yng Nghlydach. Fel negesydd radio yn y Llu Awyr cymerodd ran mewn ymgyrchoedd awyr dros yn Almaen. Ugain oed yn unig oedd e pan gladdwyd e ym mynwent Capel Bethel ym mis Mawrth 1941. Rhaid bod clywed yr emyn "Rwyf finnau'n filwr bychan," yn brofiad torcalonnus i'w fam druan, a hithau'n weddw. Yn ystod y gwasanaeth hwnnw yn y capel tystiodd Tudor Williams, Prifathro'r Ysgol Ramadeg, i ragoriaethau Percy yn ei waith academaidd ac ar y meysydd chwarae. Ef oedd y cyntaf o gyn-ddisgyblion yr ysgol honno i'w ladd yn yr Ail Ryfel Byd.

Elwyn Thomas Pantiouar Claddwyd ef ym mynwent yr Eglwys ym mis Gorffennaf 1942, gyda'r cynhebrwng yn cael ei arwain gan y Royal Marines. Mae rhai o blant Ysgol Llanpumsaint fu'n bresennol yn cofio'r ergydion yn cael eu tanio dros y bedd. Ganed ef yn ystod y Rhyfel Cyntaf yn 1915, yn un o un ar ddeg o blant i Mr a Mrs John Thomas Pantiouar. Roedd wedi cychwyn yn Ysgol Llanpumsaint ar y diwrnod olaf o Fedi 1920, ac wedi gadael yno aeth i weithio i John Bowen, y Durwerthwr enwog hwnnw yng Nghaerfyrddin. Daeth yn yrrwr profiadol a dibynadwy gyda Hollwills, cwmni dosbarthu olew adnabyddus yr adeg hynny. Felly pan ymunodd â'r fyddin doedd ryfedd iddo gael ei ddewis i fod yn *Dispatch Rider* gan ddatblygu i fod yn un o'r goreuon yn ei uned. Yn ôl yr uchel swyddog, Major Locke roedd Elwyn yn frwdfrydig, yn ufudd ac yn hynod boblogaidd Damwain yn ystod cad- drefniant (manoeuvres) fu'n gyfrifol am ei farwolaeth, a chafodd angladd fawr iawn, â'r Gwarchodlu Cartref yn archgludwyr.

Arwyn 2013

Village Voice December 2013

Copy Date for next Edition 25th January 2014

Village Voice is published by Llanpumsaint Community Information Exchange
www.llanpumsaint.org.uk email info@llanpumsaint.org.uk. Please send items to
info@llanpumsaint.org.uk or post to Bodran Felin, Llanpumsaint SA33 6BY

A Merry Christmas and a Happy New Year to you all

What's On in the Village – please put these dates in your diary

Every Tuesday Zumba 6.30 – 7.30 Memorial Hall (starts again 7th January)

Every Wednesday Mobi 5.30 – 7.30 Outside Memorial Hall

Third Monday each month 7.30 Merched yr Wawr Memorial Hall

December 13 Friday 7.30 Bingo Memorial Hall

December 14 Saturday Christmas Concert Cylch Meithrin Bronwydd Hall

December 15 Sunday 3.00 Christmas Service Nebo Chapel

December 15 Sunday 6.00 Carol Service Llanpumsaint Church

December 17 Monday Christmas Dinner Gwili >60 Club Hollybrook Inn

December 24 Christmas Eve 1.30 Santa Parade

December 31 New Year's Eve Dinner at the Railway and bar with Karaoke 253643

January 1 Wednesday 11.00 History walk around the Village

January 7 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall

January 15 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn 253643

January 16 Thursday 7.00 Curry and Quiz £5 a head Railway Inn

January 24 Friday 7.30 AGM Llanpumsaint Community Information Exchange

January 26 Sunday 1.45 West Wales Dowsers Society Bronwydd Hall

January 26 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

January 27 Monday 2.00 Clwb Gwili >60+ Robert Morgan

January 28 Tuesday 12.15 Happy Feet Clinic Memorial Hall

February 1 Saturday 7.30 Supper and Swing Memorial Hall Tickets £10 01559 389044

February 4 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall

February 8 Saturday 10.30 Walk from Bronwydd Hall

February 12 Wednesday 12.30 Luncheon Club Railway Inn 253643

February 20 Thursday 7.00 Curry and Quiz £5 a head Railway Inn

February 23 Sunday West Wales Dowsers Society Bronwydd Hall

February 23 Sunday 8.00 Quiz Hollybrook Inn Bronwydd

February 24 Monday 2.00 Clwb Gwili >60+ Police + Cawl!

March 1 Saturday Cawl and Horse Racing Memorial Hall – details next Village Voice

March 4 Tuesday 8.00 Llanpumsaint Community Council Memorial Hall

March 11 Tuesday 12.15 Happy Feet Clinic Memorial Hall

Llanpumsaint and Ffynnon Henry Memorial Hall

To book the hall, phone Arwel Nicholas on 01267 281365

Santa Parade Christmas Eve –

Llanpumsaint Welfare and Recreation Association

The parade headed by Santa in his sleigh will leave from the top of Nant yr Ynys cul-de-sac at 1.30pm. The parade will stop to sing carols at The Railway Inn, Bryn y Wawr, Penbontbren Stores, The Church, Llandre View, the Llandre Estate and Parc Celynin before returning to the Railway Inn.

Santa's followers are encouraged to wear fancy dress, and Jayne at The Railway will choose the best fancy dress outfit. The Wearer will receive a cash prize.

The carols sung during the Parade will be with alternate verses in Welsh and English.

A raffle will be held in the Railway after the parade, and there will be soup and mince pies available.

Santa with his helpers in attendance will meet the children in his Grotto at the Railway after the Parade.

Proceeds from the bucket collection and the raffle will be given to the Welfare and Recreation's nominated Charity for 2013 – The Audiology Unit at Glangwili Hospital for the benefit of deaf children.

Clwb Gwili 60+

The Club is still welcoming new members for 2014 and a very interesting Calendar of Events has been prepared for the coming year. The annual Christmas Dinner is planned for 17th December at the Hollybrook Inn so there will be no meeting at the end of December.

Club meetings will resume in January on the fourth Monday as usual when Mr Robert Morgan will give a talk on "Life begins at 60" The P.S.O. from Dyfed Powys Police will talk about his role in the village at the February meeting, also at the February meeting the Club will celebrate St David's day with a bowl of Cawl, Roll and cheese for all members.

Further information available from Mrs Val Giles Club Secretary 01267 281194

Shop – Christmas opening times

Christmas Eve 8 – 3pm, Christmas Day Closed, Boxing Day Closed.

New Year's Eve 8 – 3pm, New Years Day Closed, 2nd January 9 – 1pm

Notice of application for a **Premises licence*

Under section *17 Licensing Act 2003

Name of applicant: **LLANPUMSAINT & FFYNONHENRI MEMORIAL HALL
COMMITTEE**

Address of premises: **MEMORIAL HALL, LLANPUMSAINT, CARMARTHEN**

It is proposed to **license these premises for/vary the premises licence*

Regulated entertainment	MON-SUN	09.00-00.00
	NEW YEARS EVE HRS.	09.00-02.00
Alcohol	MON-SUN	09.00-00.00
	NEW YEARS EVE HRS.	09.00-02.00
Late night refreshments	MON- SUN	23.00-00.00
	NEW YEARS EVE HRS.	23.00-02.00
Opening hrs.	MON- SUN	09.00-00.30
	NEW YEARS EVE HRS.	09.00-02.30

The full application can be inspected at the Council Offices below on the following days and times: Monday, Tuesdays, Wednesdays and Thursdays 08.45am – 5.00pm
Fridays 08.45am – 4.30pm

Representations must be submitted no later than: **13/01/14 IN WRITING to:**

Head of Public Protection at:

Carmarthenshire County Council, 3 Spilman Street, Carmarthen SA31 1LE

e-mail :PublicProtection@carmarthenshire.gov.uk Fax: 01267229141

It is an offence knowingly or recklessly to make a false statement in connection with an application and the maximum fine for which a person is liable on summary conviction for the offence is not exceeding £5,000.

Railway Inn

